Swansea University
Prifysgol Abertawe
1920~2020

PRIFYSGOL ABERTAWE

Dirprwy Is-ganghellor, Rhyngwladol

Brîff Penodi. Mawrth 2020

PRIFYSGOL ABERTAWE
Ar Frig y Don ers 1920



Yr Abaty
Adeilad hanesyddol trawiadol, gyda chyfoeth o fywyd gwyllt, yng nghanol Campws Singleton; un o'n dau gampws arobryn ar lan y môr

Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad a arweinir gan ymchwil sy'n ffynnu ar archwilio a darganfod. Rydym yn cynnig cydbwysedd hynod ddeniadol o addysgu ac ymchwil rhagorol, ynghyd ag ansawdd bywyd ardderchog ar ein dau gampws ar lan y môr. Wrth i'n canmlwyddiant nesáu, rydym yn ymfalchïo'n fawr yng nghyfraniad y Brifysgol at weddnewid Abertawe a'i gwneud yn ddinas ragoriaeth, ers 1920.

Gyda mwy na 20,000 o fyfyrwyr, mae'r Brifysgol wedi mwynhau cyfnod aruthrol o dwf, ynghyd â'r safonau uchaf o brofiad myfyrwyr.

Rydym yn y 10 uchaf yn y DU ar gyfer boddhad cyffredinol myfyrwyr yn ôl Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS) a dyrannwyd Prifysgol y Flwyddyn i ni yn 2019 gan Wobrau Dewis Myfyrwyr WhatUni 2019. Yn ogystal, daeth Prifysgol Abertawe ar frig y categori Rhyngwladol ac roeddwn yn drydydd yn y categorïau Ôl-raddedig, Cwrs a Darlithwyr.

Ni yw Prifysgol y Flwyddyn Cymru, ac yn ail ym Mhrifysgol y Flwyddyn y Deyrnas Unedig yn 2019 yn ôl y Times a'r Sunday Times Guide. Mae hefyd gennym statws aur, sef yr uchaf posib, yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF).

Mae ein graddedigion yn mwynhau cyfleoedd rhagorol, ac mae tystiolaeth o hyn yn ein 5ed safle ar y cyd ar gyfer rhagolygon graddedigion y DU, a rennir gyda Phrifysgol Caergrawnt.

Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, gwireddwyd ein huchelgais o fod ymhlith y 30 prifysgol orau yn y DU, a chawsom y naid uchaf i fyny'r tabl cynghrair o blith yr holl brifysgolion, o'r 52 safle yn 2008 i'r 26 safle yn 2014. Mae hyn yn dangos ymrwymiad Abertawe i gyflawni ymchwil o'r radd flaenaf, sy'n tynnu ar gydweithio ym mhedwar ban byd ac a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Yn ogystal, mae gennym brosiectau cydweithredol diwydiannol mawreddog sy'n sbardun i dwf economaidd, sy'n meithrin ffyniant ac sy'n cyfoethogi'r gymuned a bywyd diwylliannol Cymru.

Mae Prifysgol Abertawe'n llwyr ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb rhyw, amrywiaeth a chynhwysiad ac mae wedi bod yn aelod balch o Siarter Athena SWAN ers 2008. Rydym yn falch o fod yn ddeiliaid Gwobr Sefydliadol Arian, sef y safon uchaf ar hyn o bryd a ddyrannwyd i brifysgol yn y DU, a ni oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i dderbyn hyn.

GWOBRAU AC CYDNABYDDIAETH

ENILLYDD

PRIFYSGOL Y FLWYDDYN

(Gwobrau Dewis What Uni 2019)

CLOD MAWR

GRŴP RHWYDWAITH CYFLOGWYR LGBT+ 2019

MYNEGAI CYDRADDOLDEB YN Y GWEITHLE STONEWALL

YN Y 10 **GORAU AR GYFER CYFLOGI POBL DRAWSRYWIOL 2018**

MYNEGAI CYDRADDOLDEB YN Y GWEITHLE STONEWALL

4 GWOBRAU ARIAN

ATHENA SWAN

SILVER SILVER SILVER SILVER

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2019

ENILLYDD RHYNGWLADOL

ENILLYDD **RHYNGWLADOL**

5 UCHAF YN Y DU

RHAGOLYGON GRADDEDIGION

(Guardian University League Table 2020)

10 UCAF YN Y DU

BODDHAD MYFYRWYR

(NSS 2019)*

47 ain

100 O GYFLOGWYR GORAU

Stonewall TOP 100 EMPLOYER 2020

Stonewall 100 CYFLOGWR GORAU 2020

AR Y BRIG **YNG NGHYMRU**

(The Times and Sunday Times, Canllaw Prifysgolion Da 2020)

YN Y 10

GORAU AR GYFER GWASANAETHAU MYFYRWYR

(Gwobrau Dewis y Myfyrwyr WhatUni 2019)

90.3%

O'N HYMCHWIL WEDI'I HYSTYRIED YN

FLAENLLAW'N FYD-EANG / O SAFON RAGOROL YN RHYNGWLADOL

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

PRIFYSGOL CAMPWS GYNTAF

YN Y DU

3 GWOBRAU EFYDD

ATHENA SWAN

BRONZE BRONZE BRONZE

DYFARNIAD

AUR

Ef y dyfarniad gorau posibl yn y Fframwaith Genedlaethol

TEF Gold Teaching Excellence Framework

AELOD O'R SIARTER

ECU RACE CHARTER Race Equality Charter

CYDRADDOLDEB HIL

CAMPWS
GWEDDNEWID

Sefydlwyd Campws Singleton Prifysgol Abertawe ym 1920, pan osododd Brenin Siôr V garreg sylfaen seremonïol y Brifysgol yn Abaty Singleton. Wedi'i lleoli mewn parcdir ar lan môr Abertawe, hon oedd y brifysgol gyntaf a ddyluniwyd ar gynllun campws yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Abaty yn parhau i fod wrth wraidd y campws, sydd wedi parhau i ddatblygu ac sydd wedi bod yn gartref i'n Prifysgol ers bron i gan mlynedd.

Yn fwy diweddar, sefydlwyd ein Campws y Bae, sef datblygiad ar lan y môr gwerth £450 miliwn, sydd wedi dyblu ein gallu ymchwil ac addysgu, ar ochr ddwyreiniol y ddinas. Ynghyd â gwaith parhaus i weddnewid Campws Parc Singleton, mae'r datblygiad hwn yn arwydd o'n bwriad i fod yn un o'r lleoedd gorau i fyw, addysgu, ymchwilio a chydweithio yn Ewrop.

Y Ffowndri Gyfrifiadol: cyfleuster gwerth £32.5m o'r radd flaenaf

> Enghraifft ddisglair o gydweithio arloesol rhwng ymchwilwyr a diwydiant, a fydd yn denu rhagor o gyllid ar gyfer ymchwil ac yn sefydlu Cymru fel canolfan cyfrifiadureg ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang. *Prif Weinidog Cymru, 2018*

Campws y Bae

TWF MEWN MYFYRWYR **RHYNGWLADOL**

Mae Prifysgol Abertawe'n ymfalchïo yn ei chyrhaeddiad byd-eang a'i henw da wrth weithio gyda phartneriaid rhyngwladol i gyflawni ymchwil o'r radd flaenaf, mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu ac addysgu a chyfleoedd i fyfyrwyr a fydd yn newid eu bywydau.

Mae ein campysau'n fywiog ac yn amrywiol, gan gynnwys unigolion o fwy na 130 o wledydd gwahanol oll yn rhan o'n cymuned gyfeillgar.

Mae'r Brifysgol wedi parhau i addasu a datblygu ein cyrhaeddiad yn y farchnad ryngwladol. Mae e Campws y Bae yn gartref i'r Coleg sy'n olynydd i'r hyn a elwid yn Goleg Rhyngwladol Cymru, Abertawe [ICWS] gynt, sydd wedi helpu mwy na 2,000 o fyfyrwyr i symud ymlaen i'r Brifysgol. Dyma gyfradd ddilyniant o 95%.

Rhwng 2008 a 2018, cafwyd cynnydd o 56% yng nghyfanswm nifer y myfyrwyr ar draws pob marchnad. Mae hyn yn cymharu â thwf o 112% mewn recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, yn benodol.

Yn 2019, roedd yn anrhydedd mawr i ni ennill y categori Rhyngwladol yng Ngwobrau Myfyrwyr What Uni. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn dystiolaeth o'n hymrwymiad i ryngwladoli drwy'r safonau uchaf o foddhad myfyrwyr.

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2019

ENILLYDD RHYNGWLADOL

TWF MEWN MYFYRWYR STRATEGOL **PARTNERIAETHAU**

Mae gennym nifer o Bartneriaethau Strategol Rhyngwladol (ISP) sy'n flaenllaw yn eu sectorau.

Amrywiaeth a lefel y gwaith cydweithredol sy'n gwneud y Partneriaethau hyn yn unigryw, gan eu bod yn cynnwys ymchwil, addysgu a symudedd ar draws amrywiaeth eang o feysydd pwnc.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar gwelwyd cynnydd o 91% yn nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn ein Cyfleoedd Byd-eang.

Mae ein strategaeth ryngwladol 2020 – 2025 yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad i ryngwladoli cynhwysfawr, y gwelir tystiolaeth ohono drwy ein gweithredu, i gyfuno safbwyntiau rhyngwladol a chymharol ym mhob rhan o addysgu, ymchwil a chyfnewid gwybodaeth gweithgareddau'r Brifysgol.

Mae partneriaethau cadarn, ar y cyd â nifer fechan o brifysgolion o safon dramor, wrth wraidd ein strategaeth.

CYDWEITHIO Â **127 O WLEDYDD YM MHEDWAR BAN BYD**

PRIFYSGOL TRENT **CANADA**

Prifysgol Abertawe; cyrchfan fyd-eang; yn cynnig cyfleoedd byd-eang i fyfyrwyr, drwy ein prifysgolion partner.

Er enghraifft, y Radd Ddeuol rhwng Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton yn Abertawe a Phrifysgol Trent, Ontario, sy'n galluogi myfyrwyr i gwblhau gradd yn y Celfyddydau a gradd tair blynedd yn y Gyfraith.

Y Coleg, Prifysgol Abertawe

NAVITAS **AWSTRALIA**

Menter ar y cyd gwerth £45m rhwng Prifysgol Abertawe a Navitas; darparwr addysg byd-eang sy'n flaenllaw ym maes cyrsiau paratoi at y brifysgol; i fyfyrwyr rhyngwladol; gan arwain at lansio Y Coleg, yn 2018.

Fel olynydd Coleg Rhyngwladol Cymru gynt, mae'r fenter yn ymestyn cyrhaeddiad byd-eang y Brifysgol yn sylweddol, gan danlinellu ei phroffil a'i henw da rhyngwladol, sydd eisoes yn gryf fel un o'r 200 Prifysgol Orau yn y Byd i Fyfyrwyr Rhyngwladol.

Mae ein partneriaeth â Navitas yn amlygu cysylltiadau cryf y Brifysgol ag Awstralia, drwy gyllid Awstralia a chysylltiad ymchwil presennol.

PARTNERIAETH STRATEGO **TEXAS**

Mae ein Partneriaeth Strategol Texas yn hirsefydlog ac yn llwyddiannus, gan gynnwys wyth prifysgol a sefydliad meddygol blaenllaw:

Prifysgol Texas yn Austin
(â safle 39 yn Nhablau Prifysgolion y Byd THE 2019)

Prifysgol Texas A&M
(â safle 171 yn Nhablau Prifysgolion y Byd THE 2019)

Prifysgol Rice
(â safle 86 yn Nhablau Prifysgolion y Byd THE 2019)

Prifysgol Houston

Coleg Meddygaeth Baylor Sefydliad

Ymchwil Methodistaidd Houston

Canolfan Gwyddor Iechyd Prifysgol Texas yn Houston

Cangen Feddygol Prifysgol Texas yn Galveston

Mae wedi arwain at 188 o gyfnewidiadau myfyrwyr mewn pum mlynedd, 167 o gyhoeddiadau ar y cyd, mwy na 12,000 o ddyfyniadau a chyllid gwerth bron i $300,000 ar gyfer ysgoloriaethau a chyllid er mwyn symud.



PARTNERIAETH STRATEGO **GRENOBLE**

Caroline Bissardon
Graddedig PhD cyntaf Abertawe-Grenoble, ac enillydd Gwobr Menywod mewn Gwyddoniaeth l'Oréal-UNESCO

Mae ein Partneriaeth Strategol â Grenoble yn fodel amlddisgyblaethol, arloesol ar gyfer cydweithio rhyngwladol, gan ychwanegu gwerth drwy wahaniaethu academaidd. Gan gynnwys cymuned o brifysgolion a sefydliadau ymchwil yn rhanbarth Rhône-Alpes, Ffrainc, mae wedi cyfuno poblogaeth o fwy na 65,000 o fyfyrwyr.

Dechreuodd y bartneriaeth gynaliadwy hirdymor hon yn 2012 fel cydweithio ymchwil ym maes nanowyddoniaeth, ynni a heneiddio â Phrifysgol Joseph Fourier Grenoble (UJF).

Ers hynny, mae wedi datblygu i fod yn enghraifft o gydweithio â Phrifysgol Grenoble Alpes sy'n unigryw, yn amlddisgyblaethol a sefydliad cyfan. Mae Grenoble Alpes yn safle gwyddonol o bwys yn Ffrainc, ac yn brifysgol wedi'i hintegreiddio sy'n cynnwys rhanddeiliaid addysg uwch ac ymchwil yn Grenoble.

Mae'r bartneriaeth yn cynnwys Université Grenoble Alpes; Sefydliad Technoleg Grenoble (Ecole Polytechnique); CNRS ac INRIA.

ARLOESEDD
A MENTERGARWCH

Sefydlwyd Prifysgol Abertawe gan ddiwydiant ym 1920 i gyflawni er lles diwydiant. Bron can mlynedd yn ddiweddarach, rydym yn parhau i fwynhau cysylltiadau o fri â phartneriaid masnachol a diwydiannol ar draws amrywiaeth o sectorau. Rydym yn arwain Cymru ym meysydd ymchwil hollbwysig i dwf economaidd a lles y boblogaeth, gan gynnwys yn y Gwyddorau Amgylcheddol, Meddygaeth a Pheirianneg.

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo a chefnogi gwaith cydweithredol sy'n arwain at arloesi. Rydym yn ymfalchïo yn y mentrau arobryn sy'n deillio o'r Brifysgol, ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda hi. Ar hyn o bryd, mae gennym:

- wy na 40 cwmni wedi'u cydleoli ar ein campysau;
- mwy na 30 menter ddeilio ar Gampws y Bae ers iddo agor yn 2015;
- 1af yng Nghymru, 5ed yn y DU ar gyfer cwmnïoedd deillio staff sy'n weithredol ar ôl 3 blynedd (HEBCI 2018).

Rydym yn gwrando ar anghenion busnes ac rydym wedi datblygu cydweithrediadau strategol effeithiol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, gan helpu i;

- oresgyn heriau diwydiant a darganfod cyfleoedd newydd
- darparu mynediad i ddoniau ar gyfer diwydiant a sgiliau y bydd galw mawr amdanynt yn y dyfodol i'r myfyrwyr
- darparu cyfleoedd masnachol megis cydleoli canolfannau blaenllaw diwydiant.

I gydnabod pwysigrwydd y Brifysgol i Ddinas-ranbarth Bae Abertawe, ac ar y cyd â Chyngor Abertawe, rydym wedi addo i greu mwy o swyddi, gwella addysg a pharhau i hyrwyddo diwylliant o fentergarwch ac arloesedd.

Mae gennym nifer o bartneriaethau arwyddocaol, hirdymor â diwydiant, gan amrywio o TATA a Rolls Royce i'r DVLA a SKY.

RHAGORIAETH **ADDYSGU**

Ar hyn o bryd, mae gan Brifysgol Abertawe statws TEF Aur, sef y statws uchaf posib yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, gan gadarnhau ei safle fel un o brifysgolion gorau'r DU. Rydym yn sefydliad uchelgeisiol, yn y 30 uchaf, sy'n cynnig amgylchedd academaidd a chytbwys rhagorol sy'n galluogi myfyrwyr a staff i ragori.

Mae ein hymrwymiad at amrywiaeth, ar y cyd â'n gallu i dderbyn myfyrwyr sydd â thariffau mynediad isel, yn ogystal â chyflawni lefelau cyflogadwyedd graddedigion sy'n arwain y sector, yn dangos pa mor werthfawr yw profiad cyfoethog y myfyrwyr ac ansawdd yr addysgu. Mae'r Brifysgol yn un o sefydliadau addysg uwch blaenllaw'r DU am gynnydd dysgu, ac mae cyflogaeth graddedigion wrth wraidd ein darpariaeth. Ceir tystiolaeth o hyn yn y ffaith bod Abertawe yn un o 5 prifysgol orau'r DU ar gyfer rhagolygon graddedigion ac yn y 10 gorau ar gyfer boddhad cyffredinol myfyrwyr (Guardian University Guide 2020).

Mae staff yn Abertawe wedi ymrwymo i ddatblygu'n broffesiynol, gan gynnig dysgu ysbrydoledig a thrawsnewidiol, sydd ar flaen y gad o ran gweithgareddau addysgu. Mae ein cymuned Academaidd yn cynnwys unigolion sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth unigol am yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, megis; BMA Cymru Wales/BMJ Athro Clinigol y Flwyddyn; Enillydd gwobr Arloesi WISE; Achubwyr y Genedl – 100 unigolyn gorau; Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol Advance HE; a llawer mwy.

Caiff ein cydweithwyr addysgu gefnogaeth gan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT), sy'n gartref i adnoddau a chymorth ar gyfer pob gweithgaredd i wella dysgu ac addysgu.

Yn ogystal, mae gennym nifer o academïau a gwasanaethau unigryw, sy'n manteisio ar ein henw da o ran ymchwil a phartneriaethau diwydiannol i gefnogi ein cynigion dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf.

Mae ein Hacademi Iechyd a Lles, o'r radd flaenaf, yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr weithio gydag ymarferwyr tra chymwys mewn amgylchedd proffesiynol, hamddenol a chyfeillgar. Mae'r academi yn cefnogi iechyd a lles pobl yn y rhanbarth lleol ac, yn 2018, fe'i cydnabuwyd am yr hyn y mae wedi ei gyflawni, gan ennill categori Effaith Gymdeithasol a Chymunedol yng Ngwobrau Prifysgolion y Guardian.

Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe (SEA), mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, yn cynnig cyllid ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr a arweinir gan fyfyrwyr. Mae SEA yn galluogi myfyrwyr i gymryd yr awenau yn eu mentrau eu hunain, gan sicrhau bod dysgu a phrofiad yn digwydd ar yr un pryd a chan arwain at gyfleoedd gyrfa llwyddiannus i raddedigion.

Academi Hywel Teifi yw ein canolfan ragoriaeth ar gyfer astudio'r Gymraeg a Llên Gymraeg. Mae'n hyrwyddo addysgu a gwaith ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiaeth o bynciau, gan weithio i sicrhau statws gwell i'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd yn y Brifysgol a ledled de-orllewin Cymru.

Mae ein holl academïau yn canolbwyntio ar gyfoethogi rhagoriaeth dysgu ac addysgu, â'r nod o fwyafu'r buddion nid yn unig ar gyfer ein myfyrwyr a'n cydweithwyr, ond ar gyfer y gymuned ehangach hefyd.

Yr Academi Iechyd a Lles
Dyma fenter yng Ngholeg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, gan gefnogi iechyd a lles pobl yn ne-orllewin Cymru.

RHAGORIAETH
YMCHWIL

Fel prifysgol sydd ymysg y 30 prifysgol orau sy'n canolbwyntio ar ymchwil, rydym yn parhau i ragori ac ystyrir bod 90% o'n hymchwil o'r radd flaenaf neu'n rhyngwladol ragorol am y gwahaniaeth mae'n ei wneud i'r gymdeithas. Cafwyd cynnydd o 300% yng nghyllid UKRI ers 2014, ac mae ein hincwm ymchwil yn gyffredinol wedi cynyddu 70% mewn 10 mlynedd. I gyd-fynd â'r twf hwn, rydym wedi ehangu ein cyfleusterau ymchwil, a nodwyd drwy agor ein Campws y Bae newydd.

Mae Prifysgol Abertawe yn y 22 safle yn y DU am effaith ymchwil, gan wneud yn well nag 11 o Brifysgolion Grŵp Russel (REF 2014). Rydym yn ymroddedig i ymchwil â manteision i'r byd go iawn, boed wrth ddal carbon deuocsid i greu plastig gwyrddach, neu adeiladu tai sy'n gweithredu fel gorsafoedd pŵer, i adfywio a thrawsnewid tirweddau diwydiannol neu ddeall anghenion a dyheadau'r boblogaeth hŷn yn well.

5ED yn y **DU**
AR GYFER INCWM YMCHWIL GYDWEITHREDOL
BRIG YNG NGHYMRU
(HEBCI 2018)

SAFLE YNG NGHYMRU 1AF am Effaith Ddyfynnu
(THE WUR 2018)

Y GORAU 30 YN Y FfRhY
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

508
O BARTNERIAID YMCHWIL MEWN DIWYDIANT
(HEBCI 2018)

Car Uwchsonig BLOODHOUND
Dyma brosiect cydweithredol â'r Coleg Peirianneg, sy'n dilyn llwyddiant Car Uwchsonig THRUST sy'n dal record cyflymder tir y byd ar hyn o bryd.

DINAS **ABERTAWE**

Mae Abertawe'n ddinas arfordirol hardd a chosmopolitan sy'n cynnig ansawdd bywyd rhagorol. Dinas Cymru ar Lan y Môr a man geni Dylan Thomas, mae'n ddinas forwrol fywiog a chanddi boblogaeth o 240,000.

Mae gan brifysgol Abertawe gysylltiadau cryf â'r ddinas, drwy ein nawdd ar gyfer Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe a'n hymrwymiad i gydweithredu â phartneriaid lleol.

Rhwng 2014 a 2017, drwy'r fenter ar cyd rhwng Llywodraeth Cymru a buddsoddwyr preifat, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, denwyd buddsoddiad gwerth £10.2 miliwn i ganol y ddinas. Creodd y prosiect gannoedd o swyddi, yn ogystal ag ailddatblygu 58,000 o droedfeddi sgwâr o ofod masnachol.

Mae bwrlwm datblygu yn y ddinas yn parhau, a ffactor allweddol yn y gweithgarwch hwn oedd Bargen Ddinesig Bae Abertawe, buddsoddiad gwerth £1.3 biliwn a sicrhawyd gan Ddinas-ranbarth Bae Abertawe ar gyfer 11 prosiect ar draws Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae gan y ddinas gysylltiadau uniongyrchol â Llundain a Manceinion ac mae'n daith fer ar y trên o Gaerdydd.

Tafliad carreg i ffwrdd yn unig, ceir pentref y Mwmbwls, a oedd yn gyrchfan gwyliau poblogaidd yn oes Fictoria. Mae'r pentref, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel 'Porth Gŵyr, yn cynnig dewis gwych o atyniadau, gan gynnwys pier, siopau dillad traddodiadol, siopau crefftau a chaffis hufen iâ. Mae Penrhyn Gŵyr – a ddynodwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf Prydain – yn ymestyn i'r gorllewin o'r Mwmbwls, gan gynnig cyfres o dirweddau arfordirol a gwledig hyfryd.

I'r dwyrain, mae 'Gwlad y Sgydau' yn Afan a Dyffryn Nedd yn hafan i gerddwyr a beicwyr fel ei gilydd. Wrth deithio i'r gorllewin, byddwch yn cyrraedd yr unig barc cenedlaethol arfordirol ym Mhrydain: Pembrokeshire.

Mae Abertawe yn elwa hefyd o fod yn agos at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd awr yn unig o daith o'r ddinas.

MANTEISION GWEITHIO YM MHRIFYSGOL ABERTAWE

Mae Prifysgol Abertawe'n darparu amgylchedd gwaith rhagorol, sy'n cael ei gefnogi gan ein cymunedau campws cyfeillgar a chroesawgar.

Rydym yn gwerthfawrogi pobl am eu sgiliau, waeth beth yw eu cefndir ac rydym yn falch o gael ein henwi'n un o'r cyflogwyr gorau ym Mynegai Cydraddoldeb blynyddol Stonewall. Mae ein gwobrau Athena SWAN hefyd yn cydnabod ein hymrwymiad i gydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Cefnogir ein cydweithwyr addysgu gan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT), sy'n cynnig adnoddau a chymorth ar gyfer pob gweithgaredd i wella dysgu ac addysgu.

Mae tîm ymroddedig y Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS) yn gweithio ar y ddau gampws er mwyn cefnogi cylch bywyd cyfan syniadau ymchwil, o sicrhau grantiau i reoli prosiect, masnacheiddio ymchwil a datblygu.

Caiff cydweithwyr fanteisio hefyd ar gyfleusterau o'r radd flaenaf ein Hacademi Iechyd a Lles, sy'n cynnig cyfleoedd i unigolion gael eu trin gan ymarferwyr cymwysedig iawn, mewn amgylchedd proffesiynol, cartrefol a chyfeillgar, gan hefyd ddarparu hyfforddiant i'n myfyrwyr.

Gwyddom fod gan bobl ymrwymiadau y tu hwnt i'w swyddi, a dyna pam rydym yn darparu amgylchedd gweithio sy'n galluogi staff i gyflawni'r cydbwysedd iawn rhwng bywyd a gwaith. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion ychwanegol, oll wedi'u cefnogi gan ein hadran AD arobryn. Gweler ein tudalennau Manteision gweithio yn Abertawe.

STRWYTHUR Y BRIFYSGOL

UWCH-DÎM RHEOLI

Arweinir y Brifysgol gan Uwch-dîm Rheoli, sy'n cynnwys:

Is-ganghellor	Yr Athro Paul Boyle
Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredol	Mr Andrew Rhodes
Profost	Yr Athro Steve Wilks
Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi)	Penodwyd yn ddiweddar
Dirprwy Is-ganghellor (Addysg)	Yr Athro Martin Stringer
Dirprwy Is-ganghellor (Rhyngwladol)	Dyma'r rôl y mae angen ei llenwi
Cyfarwyddwr Cyllid	Mrs Sarah Jones

COLEGAU ACADEMAIDD

Mae gan y Brifysgol saith Coleg Academaidd ar y ddau gampws, y mae pob un ohonynt yn cael ei arwain gan Bennaeth Coleg:

Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau	Yr Athro John Spurr
Y Coleg Gwyddoniaeth	Yr Athro Matt Jones
Y Coleg Peirianneg	Yr Athro Huw Summers
Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd	Yr Athro Ceri Phillips
Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton	Yr Athro Elwen Evans QC
Yr Ysgol Reolaeth	Yr Athro Katrina Pritchard, Professor Mike Williams
Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe	Yr Athro Keith Lloyd

GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae un ar ddeg Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Proffesiynol yn cefnogi gwaith y Brifysgol. Mae pob Cyfarwyddwr yn adrodd i'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredol ac mae'n gyfrifol am sicrhau gwasanaethau proffesiynol effeithiol ac effeithlon ar draws gweithgareddau'r Brifysgol.

Gwasanaethau Academaidd
Ystadau a Rheoli Cyfleusterau
Cyllid
Adnoddau Dynol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau
Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio
Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol
Yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol
Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi
Gwasanaethau Myfyrwyr
Cyfathrebu Strategol

LLYWODRAETHU'R BRIFYSGO

CYNGOR Y BRIFYSGOL

Cyngor Prifysgol Abertawe yw'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol, yn ogystal â'i chyllid, ei heiddo, ei buddsoddiadau a'i busnes cyffredinol. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor, sy'n ymgynnull sawl gwaith y flwyddyn, 28 o aelodau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Brifysgol. Mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

Canghellor	Yr AthroDame Jean Thomas
Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor	Mr Bleddyn Phillips
Pro-Chancellor	Sir Roderick Evans
Trysorydd	Yn wag ar hyn o bryd
Is-ganghellor	Yr Athro Paul Boyle
Dirprwy Is-gangellorion	Yr Athro Martin Stringer, Yr Athro Steve Wilks
Aelodau Lleyg a benodir gan Lys Prifysgol Abertawe	Mr Gordon Anderson, Dr Kerry Benyon, Mrs Jill Burgess, Yr Athro Kathryn Monk, Ms Elin Rhys, Mrs Gaynor Richards
Aelodau o Staff a benodir gan ac o'r Senedd	Dr Ryan Murphy, Yr Athro Joy Merrell, Yr Athro Nuria Lorenzo-Dus, Dr Sian Rees
Aelodau Lleyg Cyfetholedig	Mrs Rosemary Morgan, Dr Angus Muirhead, Mr Bleddyn Phillips
Cynrychiolwyr Undebau Llafur	Mr Adrian Jenkins, Professor Sue Jordan
Llywydd Undeb y Myfyrwyr	Ms Grace Hannaford
Swyddog Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr	Ms Ffion Davies

SENEDD Y BRIFYSGOL

Senedd y Brifysgol yw uwch gorff academaidd y Brifysgol ac mae'n gyfrifol, yn unol â chymeradwyaeth y Cyngor, am reoleiddio a goruchwylio cyrsiau, dyfarniadau a chymwysterau a ddarperir gan y Brifysgol. Daw aelodau'r Senedd o staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad.

LLYS Y BRIFYSGOL

Mae'r Llys, sy'n gorff sylweddol a chanddo dros 300 o aelodau, yn sefyll uwchlaw prif gyfundrefn benderfynu'r Brifysgol, gan gynrychioli rhanddeiliaid y Sefydliad. Daw'r rhan fwyaf o aelodau'r Llys o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynrychioli'r gymuned leol a chyrff dynodedig eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol.

CYNLLUNIAU UCHELGEISIOL
AR GYFER 2020

DYMA AMSER CYFFROUS I YMUNO Â PHRIFYSGOL ABERTAWE.

Sefydlwyd y Brifysgol gan ddiwydiant ym 1920 i gyflawni er lles diwydiant. Bron can mlynedd yn ddiweddarach, rydym yn parhau i fwynhau cysylltiadau o fri â phartneriaid masnachol a diwydiannol ar draws amrywiaeth o sectorau. Rydym yn arwain Cymru o ran meysydd ymchwil sy'n hanfodol i dwf economaidd a lles poblogaeth, gan gynnwys y Gwyddorau Amgylcheddol, Meddygaeth a Pheirianneg.

Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu ein cynllun strategol newydd, wrth i ni groesawu ein hail ganrif.

THE **ROLE**

Teitl y Swydd:	Dirprwy Is-ganghellor (Rhyngwladol)
Cyflog:	Cystadleuol
Oriau gwaith:	Amser Llawn 35 awr yr wythnos
Contract:	Parhaol
Lleoliad:	Campws Singleton a Champws y Bae, gyda theithio rhyngwladol yn ôl y galw

CEFNDIR

Mae prifysgol ag enw rhyngwladol blaenllaw, gyda recriwtio myfyrwyr rhyngwladol cryf a chynnig addysg drawswladol (TNE) ddeniadol, yn hanfodol i lwyddiant parhaus y Brifysgol.
Bydd yr Is-ganghellor (Rhyngwladol) yn arwain ar ddatblygu strategaeth Ryngwladoli'r Brifysgol a'i rhoi ar waith, meithrin a dylanwadu ar bartneriaethau a rhwydweithiau byd-eang er mwyn gwella enw da rhyngwladol y Brifysgol yn barhaus, cyflwyno cyfleoedd academaidd a phartneriaeth fasnachol, gwella recriwtio a chyfleoedd myfyrwyr rhyngwladol i gael profiadau rhyngwladol fel rhan o'u hastudiaethau.

Gan adrodd i'r Is-ganghellor, rôl arwain academaidd strategol yw hon i fod yn rhan o Uwch-dîm Rheoli'r Brifysgol. Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda'r Is-ganghellor a gweddill yr uwch-dîm rheoli i wella perfformiad cyffredinol a datblygiad busnes y Brifysgol, wrth weithio'n agos gydag arweinwyr ein Gwasanaethau Proffesiynol i sicrhau bod adnoddau a phrosesau wedi'u halinio'n briodol i gefnogi amcanion rhyngwladoli strategol y Brifysgol.

PRIF DDIBEN Y SWYDD

1. Arwain gwaith datblygu, gweithredu, adrodd, gwerthuso a gwelliant parhaus Strategaeth Ryngwladoli'r Brifysgol;
2. Gweithio'n agos gyda chydweithwyr Academaidd a Phroffesiynol uwch i sicrhau ymagwedd strategol gydlynus at ddatblygu nodau ac amcanion Rhyngwladoli'r Brifysgol;
3. Datblygu, gweithredu, gwerthuso a gwella'n barhaus y portffolio TNE sy'n ei gwneud hi'n bosib cynyddu recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a thwf incwm cysylltiedig;
4. Datblygu a chryfhau partneriaethau â busnesau, diwydiannau, sefydliadau Addysg Uwch a sefydliadau anllywodraethol byd-eang i fwyafu ar gyfleoedd academaidd a masnachol newydd, gan amrywio a chynyddu ffrydiau incwm y Brifysgol yn fwyfwy;
5. Datblygu cyfleoedd i bob myfyriwr ymgymryd â phrofiad rhyngwladol fel rhan o'i radd, gan gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n gwneud cyfnod o waith neu astudio dramor;
6. Cynyddu gweithgareddau partneriaeth academaidd byd-eang i elwa ar gyfleoedd Graddau Rhyddfraint, Dilysu a Chydweithredol;
7. Cynyddu cyfran myfyrwyr rhyngwladol y Brifysgol i 20% o gyfanswm nifer y myfyrwyr;
8. Gwella enw da rhyngwladol y Brifysgol, gan gynnwys lle ymysg 250 gorau Safleoedd Byd-eang QS;
9. Datblygu rhwydwaith byd-eang effeithiol o grwpiau o gyn-fyfyrwyr.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

10. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol;
11. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol;
12. Arwain wrth wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth dda o'r proffil risg a thrwy ddatblygu diwylliant cadarnhaol o ran iechyd a diogelwch;
13. Unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl cyfarwyddyd Cydlynydd y Prosiect ac sy'n ddisgwyliedig yn ôl diffiniad y radd;
14. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.

YR **UNIGOLYN**

MEINI PRAWF HANFODOL:

Arweinyddiaeth:

1. Tystiolaeth ddangosadwy o greu diwylliant sy'n cyflwyno canlyniadau llwyddiannus drwy bobl;

2. Datblygu a herio timoedd i lwyddo ac ymfalchïo mewn amcanion strategol;

3. Galluogi ein timau i weithio gyda'i gilydd ac ar draws swyddogaethau i ddarparu canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid;

4. Gall arwain yn strategol, gyda phrofiad profedig o arwain yr agenda Rhyngwladoli yn llwyddiannus mewn cyd-destun Addysg Uwch;

5. Y gallu i feithrin amgylchedd gwaith sy'n dangos ymrwymiad i gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch a her adeiladol.

CYMWYSTERAU A PHROFIAD

6. Profiad o ddatblygu portffolio TNE llwyddiannus a'i roi ar waith;

7. Enw da proffesiynol personol uchel gyda phrofiad amlwg o arwain a hygrededd ar lefel ryngwladol;

8. Profiad strategol o arwain ar lefel weithredol, neu bron yn weithredol, gan ddefnyddio meddwl arloesol i ddatblygu strategaethau a'u rhoi ar waith er mwyn llwyddo mewn amcanion sefydliadol;

9. Profiad o arwain mentrau rhyngwladoli mawr sydd wedi cynyddu recriwtio a chyfleoedd myfyrwyr rhyngwladol i bob myfyriwr gael profiadau rhyngwladol fel rhan o'u hastudiaethau;

10. Profiad o feithrin a chynnal perthnasoedd a rhwydweithiau rhyngwladol, gan wella enw da sefydliadol ac yn arwain at gyfleoedd academaidd a masnachol cynyddol;

11. Profiad o ddefnyddio atebion digidol i gyflwyno profiadau dysgu cyfunol o safon.

GWYBODAETH A SGILIAU

12. Dealltwriaeth o symudedd myfyrwyr i sefydliadau eraill, gan gynnwys rhaglenni Erasmus etc;

13. Dealltwriaeth drylwyr o dirlun recriwtio myfyrwyr cenedlaethol a rhyngwladol;

14. Sgiliau rhyngbersonol ardderchog gyda'r gallu i feithrin perthnasoedd y gall pawb ymddiried ynddynt mewn amrywiaeth o leoliadau diwylliannol;

15. Credadwyedd proffesiynol, uniondeb, cryfder cymeriad a'r gallu i ddylanwadu ar eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt;

16. Craffter masnachol amlwg;

17. Gallu amlwg i gynllunio newid a'i roi ar waith mewn cyd-destun ar draws sefydliadau.

Mae Saxton Bampfylde Cyf yn gweithredu fel ymgynghorydd asiantaeth gyflogi i Brifysgol Abertawe yn y broses benodi hon.

Dylai ymgeiswyr gyflwyno cais am y swydd hon drwy ein gwefan yn:
www.saxbam.com/appointments gan ddefnyddio'r côd WASYM.

Cliciwch ar y botwm '**cyflwyno cais**' a dilyn y cyfarwyddiadau i lanlwytho CV a llythyr cefnogi, a chwblhewch y ffurflen monitro* cyfleoedd cyfartal ar-lein.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 17:00 **ddydd Mercher 22 Ebrill 2020.**

Hysbysiad data personol Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
Yn unol â chanllawiau GDPR, gallwn brosesu eich Data Personol Sensitif (tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometrig, iechyd, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol) gyda'ch cydsyniad cadarn yn unig. Pan fyddwch yn gwneud cais, gofynnir i chi gwblhau ffurflen ganiatâd a pheidiwch â chynnwys Data Personol Sensitif yn eich CV (er y gellir ei gynnwys yn eich llythyr eglurhaol os ydych chi'n dymuno gwneud hynny). Cofiwch hefyd i beidio â chynnwys manylion cyswllt geirdaon heb eu cytundeb o flaen llaw.